



Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Beth yw rôl tystiolaeth wrth lunio polisi atal hunanladdiad yng Nghymru?

Rosie Moore

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Ebrill 2022

Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i sicrhau gwella gwasanaethau cyhoeddus a'r broses o lunio polisiau trwy gefnogi Gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu a chymhwyso tystiolaeth annibynnol drylwyr ynghylch yr hyn sy'n gweithio. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfuno a defnyddio tystiolaeth sydd eisoes yn bodoli a nodi bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond yn gweithio'n agos gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd ynghylch sut i fynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n gwneud y canlynol:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi, cyrchu a defnyddio tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu i lywio a gwella polisiau;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, cynhyrchu, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio o ran mynd i'r afael â'r prif heriau economaidd a chymdeithasol;
- Defnyddio'i waith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i hybu dealltwriaeth o sut y gall tystiolaeth lywio a gwella gwasanaethau cyhoeddus a'r broses o lunio polisiau a chyfrannu at ddamcaniaethau mewn perthynas â llunio a gweithredu polisi.

Trwy secondiadau, lleoliadau Doethuriaeth a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r ganolfan hefyd yn helpu i feithrin gallu ymysg ymchwilwyr i ymgymryd ag ymchwil sy'n berthnasol i bolisiau sy'n cael effaith

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan yn www.wcpp.org.uk/cy/

Arianwyr Craidd



Sefydlwyd Prifysgol Caerdydd ym 1883. Mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol sydd wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, ac mae'n benderfynol o feithrin perthnasoedd rhyngwladol cadarn wrth iddi ddangos ei hymrwymiad i Gymru.



Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) yn rhan o Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI), sef sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl gan bob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesedd ffynnu.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol bywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

[Mae'n helpu i lunio polisi atal hunanladdiad yng Nghymru?](#)

Cynnwys

Crynodeb	5
Cyflwyniad	6
Cefndir	7
Cwestiynau ymchwil	10
Methodoleg	10
Y Sefyllfa o ran Polisi	11
Cymru	11
Canfyddiadau	16
C1. Beth yw'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y polisi atal hunanladdiad cenedlaethol presennol yng Nghymru?	16
Epidemioleg	16
Tystiolaeth Ansoddol	17
Hierarchaeth tystiolaeth	18
Casglu Tystiolaeth	19
RQ2. Pa fathau o dystiolaeth sy'n cael eu hystyried yn ddefnyddiol wrth lunio polisi atal hunanladdiad yng Nghymru - a pham?	20
Profiad bywyd	21
Epidemioleg	22
Tystiolaeth Weithredol	23
RQ3. Beth gellir ei wneud i annog y defnydd o dystiolaeth nas defnyddir yn ddigonol wrth lunio polisïau atal hunanladdiad?	25
Profiad bywyd	25
Synergedd mewn tystiolaeth Gymreig	26

Ehangu'r diffiniad	28
Prydlondeb	29
Casgliad	30
Cyfeiriadau	32
Manylion am yr Awduron	33

Crynodeb

- Nod y prosiect ymchwil hwn oedd **archwilio rôl tystiolaeth wrth lunio polisi atal hunanladdiad yng Nghymru** trwy ddadansoddi polisi a chyfweliadau ag actorion polisi allweddol yn y maes.
- Ar y cyfan, mae polisïau a gweithredwyr polisi atal hunanladdiad Cymru yn dangos ymrwymiad clir i ddefnyddio tystiolaeth i lunio polisi atal hunanladdiad yng Nghymru.
- Mae gweithredwyr polisi yn credu y dylai polisi atal hunanladdiad fod yn seiliedig ar **ystod eang o dystiolaeth**, gan gwmpasu epidemioleg, ymchwil academiaidd, cyngor arbenigol, a phrofiad bywyd.
- Ond er i'r cyfweleion nodi **tystiolaeth o brofiadau bywyd** fel y math mwyaf defnyddiol o dystiolaeth at ddibenion llunio polisïau atal hunanladdiad, yr elfen bennaf yn sylfaen dystiolaeth polisi atal hunanladdiad presennol Cymru – Beth am Siarad â Fi 2 – yw tystiolaeth feintiol, epidemiolegol.
- Mae'r adroddiad hwn yn argymhell, cyn yr adolygiad sydd ar ddod o Beth am Siarad â Fi 2, y dylai llunwyr polisi:
 1. Sefydlu grŵp llywio profiad bywyd i sicrhau bod profiad bywyd yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.
 2. Casglu mwy o dystiolaeth am sut mae hunanladdiad yn digwydd ar draws cwrs bywyd – er enghraifft, sut mae tuedd hunanladdol yn datblygu a sut y gellir ei hatal mewn dynion canol oed.
 3. Parhau i ddatblygu technoleg -gwyliadwriaeth hunanladdiad amser real i wella cywirdeb a dibynadwyedd data hunanladdiad.
 4. Cyhoeddi diweddariadau amlach am weithrediad polisi atal hunanladdiad cenedlaethol yng Nghymru.
 5. Mabwysiadu dealltwriaeth ehangach a mwy cyfannol o atal hunanladdiad, y tu hwnt i gylch gorchwyl iechyd meddwl.

Cyflwyniad

Hunanladdiad yw un o brif achosion marwolaeth ledled y byd (Sefydliad Iechyd y Byd, 2021). Ledled y byd, mae 800,000 o bobl yn marw trwy hunanladdiad bob blwyddyn, sy'n cyfateb i tua un farwolaeth trwy hunanladdiad bob 40 eiliad (WHO, 2021). Wrth ystyried nifer y teuluoedd, ffrindiau, a chymunedau mewn profedigaeth y tu ôl i bob un o'r marwolaethau hyn, mae effaith hunanladdiad ar ein byd yn aruthrol.

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn pwysleisio pwysigrwydd datblygu strategaethau atal hunanladdiad cenedlaethol clir a chydlynol wrth iddynt feithrin cyfrifoldeb ac atebolrwydd ymhlith rhanddeiliaid, nodi bylchau mewn deddfwriaeth a darpariaeth gwasanaethau, a nodi'r adnoddau dynol ac ariannol sydd eu hangen ar gyfer ymyrraeth (WHO, 2021). Mae Sefydliad Iechyd y Byd hefyd yn datgan y dylai strategaeth atal hunanladdiad genedlaethol ddarparu **'canllawiau awdurdodol ar weithgareddau atal hunanladdiad allweddol sy'n seiliedig ar dystiolaeth h.y. nodi[y] beth sy'n gweithio a beth nad yw'n gweithio'** (WHO, 2012).

Mae'r canllawiau hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd defnyddio tystiolaeth wrth lunio polisi atal hunanladdiad cenedlaethol. Fodd bynnag, mae hunanladdiad yn gyddestun heriol unigryw ar gyfer casglu tystiolaeth, gan fod data ar lefel poblogaeth yn aml yn hwyr ac yn anfanwl. Ar ben hynny, mae'r gwir reswm pam mae pob bywyd unigol yn cael ei golli oherwydd hunanladdiad - yn ôl ei union ddiffiniad - yn amhosibl. Felly, rhaid tynnu ar ystod eang o dystiolaeth, arweiniad, arbenigedd ac ymchwil i ateb yr hyn na ellir ei ateb.

At hynny, nid yw'r syniad o dystiolaeth wedi'i ddiffinio'n gyffredinol gan weithredwyr polisi, ac mae'r ddealltwriaeth o sut mae'r amrywiad hwn yn dangos ei hun yn y modd y caiff tystiolaeth ei defnyddio a'i gwerthfawrogi yn fan dall empirig (MacKillop, Quarmby a Downe, 2020). Yn ogystal, mae polisi atal hunanladdiad wedi bod yn destun ymchwiliad academiaidd cyfyngedig iawn, ac ychydig a wyddys am y broses o'i gynhyrchu, llawer llai am rôl tystiolaeth yn y broses honno.

Felly, drwy archwilio'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer polisi atal hunanladdiad Cymru, a chyfweld â gweithredwyr polisi allweddol yn y maes, nod y prosiect hwn yw cael rhagor o wybodaeth am rôl tystiolaeth wrth lunio polisiau atal hunanladdiad yng Nghymru.

Cefndir

Gan barhau o waddol cyfundrefn 'Yr Hyn sy'n Gweithio' llywodraeth Lafur Newydd y 1990au, derbynnir yn gyffredinol ledled maes polisi cyhoeddus y DU y dylai polisi gael ei lunio a'i lywio gan dystiolaeth (Davies et al. 2004; Cairney 2016). Fodd bynnag, mae llawer o awduron ym maes astudiaethau polisi yn gwgu ar y gred y gall fod cysylltiad llinellol, di-broblem rhwng tystiolaeth a llunio polisi – gan ddisgrifio llunio polisi ar sail tystiolaeth (EBPM) fel 'term annelwig, llawn dyhead, yn hytrach na disgrifiad da o'r broses bolisi' (Cairney, 2016 t3).

Mewn gwirionedd, mae polisi cyhoeddus yn cael ei wneud o fewn rhesymoledd cyfyngedig amgylcheddau gwleidyddol, lle mae'n rhaid i lunwyr polisi lywio cyfyngiadau amser, agenda, adnoddau, a chyllid i wneud penderfyniadau polisi (Cairney, 2016). Yn ogystal, o fewn y systemau hyn, mae llawer o ffactorau a all hwyluso neu rwystro'r defnydd o dystiolaeth ymchwil gan lunwyr polisi, gan gynnwys nodweddion y gweithredwyr polisi eu hunain, cysylltiadau rhwng defnyddwyr ac ymchwil, a natur y maes polisi penodol (Nutley et al., 2014).

Daw'r berthynas gymhleth rhwng tystiolaeth a pholisi hyd yn oed yn fwy cymhleth wrth ei chymhwyso i gyd-destun penodol atal hunanladdiad, sydd ynddo'i hun yn digwydd 'o fewn gwe o gysylltiadau cymdeithasol, moesol a gwleidyddol sy'n cael eu cydnabod, ond nad ydynt yn cael eu hamlygu'n aml' (Fitzpatrick, 2021 t113). At hynny, er bod hunanladdiad ymhell o fod yn ffenomen newydd, mae maes llunio polisiâu atal hunanladdiad yn dal yn datblygu, gyda pholisiâu atal hunanladdiad cyntaf y DU wedi'u cyhoeddi dim ond ugain mlynedd yn ôl (Marzetti et al, 2022).

Gellid tybio y byddai ffenomen sydd wedi gwreiddio cymaint yn ein byd wedi arwain at ddealltwriaeth ac ymagwedd yr un mor gyffredinol gan y rhai sy'n ceisio astudio a datblygu gwybodaeth bellach ar y pwnc. Fodd bynnag, yn y llenyddiaeth, mae bron pob agwedd ar hunanladdiad, o'i union ddiffiniad, i'r ffordd y dylid ei astudio a'i atal - os ystyrir bod modd ei atal hynny yw - yn cael ei herio (Silverman, 2016; Marsh, 2016). Cymhlethir hyn ymhellach gan y realiti bod y gwir am pam mae unigolion yn lladd eu hunain yn dod yn amhosibl unwaith ei fod yn cael ei gyflawni. Felly, ar ei orau, amcangyfrif, neu ailgread o'r gwirionedd, yw'r sylfaen dystiolaeth o ran pam mae pobl yn lladd eu hunain.

Er y gellir dadlau bod y testun mwyaf arloesol am hunanladdiad – 'On Suicide' Durkheim (Durkheim, 1897) – wedi cadarnhau cymdeithaseg fel maes astudio annibynnol (Taylor, 1988), daw'r llais disgyblaethol amlycaf o fewn llenyddiaeth gyfoes am hunanladdiad o epidemioleg, seicoleg, a'r gwyddorau meddygol ehangach (Hjelmeland a Knizek, 2016). Nodweddir yr ymchwil hon gan ddefnyddio data

meintiol, epidemiolegol, hap-dreialon rheoledig, adolygiadau systematig, a modelu risg i ddeall pwy sy'n marw trwy hunanladdiad, a beth sy'n gweithio i atal hunanladdiad ar lefel poblogaeth.

Fodd bynnag, mae dibynadwyedd ac addasrwydd y dulliau hyn ar gyfer deall hunanladdiad wedi cael eu beirniadu'n eang yn y llenyddiaeth (Hjelmeland a Knizeck, 2016). Er enghraifft, ceir problemau a gydnabyddir yn eang gyda dibynadwyedd ac amseroldeb ystadegau lefel y boblogaeth am hunanladdiad oherwydd y prosesau hirfaith sydd ynghlwm wrth ddyfarnu marwolaeth fel hunanladdiad (Appelby et al, 2019). Mae hefyd yn anodd cymharu cyfraddau marwolaethau hunanladdiad ar draws gwahanol ranbarthau a gwledydd, oherwydd anghysondebau o ran sut mae crwneriaid yn diffinio ac yn categoreiddio marwolaethau drwy hunanladdiad (Llywodraeth Cymru 2015). Yn ogystal, mae problemau lle nad yw rhai marwolaethau hunanladdiad yn cael eu cofnodi fel hunanladdiad oherwydd stigma (Appelby et al, 2019).

Mae mathau eraill o ymholi academiaidd, a hyrwyddir gan seicoleg a'r gwyddorau clinigol ehangach, wedi canolbwyntio ar nodi ffactorau risg ar gyfer hunanladdiad, a chyfuno'r rheini i greu modelau cysyniadol o risg hunanladdiad sy'n anelu at helpu i ragweld pa unigolion sy'n fwy tebygol o weithredu ar eu meddyliau hunanladdol. ar lefel poblogaeth (O'Connor a Nock, 2014). Fodd bynnag, nid yw modelau risg damcaniaethol, lefel poblogaeth bob amser yn cael eu trosi'n hawdd i wybodaeth gymhwysol sy'n ddefnyddiol i ymarferwyr sy'n gweithio gyda chleientiaid hunanladdol unigol, yn enwedig gan fod risg hunanladdiad yn gysylltiedig â natur gymdeithasol, neu gefndir cymdeithasol-ddiwylliannol, pob unigolyn.

Yn hytrach na chanolbwyntio ar y lefel neu'r math o risg a berir i boblogaeth 'homogenaidd' fel defnyddwyr gwasanaeth, mae Hjelmeland a Knizek (2016) yn cynghori y dylai ymchwil hunanladdiad gymdeithasegol ganolbwyntio ar ddeall *sut* mae'r ffactorau risg hyn yn ymddangos i unigolion yn eu cyd-destun, gan ychwanegu at ein dealltwriaeth o pam mae rhai defnyddwyr gwasanaeth yn marw trwy hunanladdiad, ond nid eraill. I wneud hyn yn effeithiol, mae ymchwilwyr yn argymhell defnyddio dulliau ansoddol i astudio'r broses gymhleth o hunanladdiad sydd o fewn cyd-destun cymdeithasol-ddiwylliannol a chwrs bywyd yr unigolyn (Hjelmeland a Knizek, 2016).

Gall dulliau ansoddol o'r fath gynnwys cyfweld â'r rhai sydd â 'phrofiad bywyd' o ymddygiadau hunanladdol, megis ymgais flaenorol i gyflawni hunanladdiad, neu unigolion sydd wedi mynd trwy brofedigaeth oherwydd hunanladdiad. Mae'r dulliau hyn yn ychwanegu rhinwedd gynnil at ystadegau hunanladdiad ond maent yn gyfyngedig o ran eu gallu i gynnig mewnwelediadau cyffredinol. Yn ogystal, canfu Fincham et al. (2011) fod y ffordd y mae perthnasau yn llunio naratifau am

hunanladdiadau ar ôl marwolaeth yn ymwneud yn bennaf â llywio eu ffordd trwy fai ac euogrwydd, ac felly maent yn awgrymu bod unrhyw adroddiadau am yr ymadawedig gan anwyliaid yn debygol o fod yn ddetholus ac yn berfformiadol, er mwyn osgoi barn.

Mae'r oruchafiaeth hon mewn gwybodaeth glinigol yn y llenyddiaeth yn arwydd o drafodaeth ehangach, sy'n fframio hunanladdiad fel mater iechyd cyhoeddus ataliol (Jacob, 2008). Yn wir, mae hunanladdiad wedi dod mor gyfystyr ag iechyd meddwl a seicopatholeg fel bod cyfraddau hunanladdiad yn aml yn cael eu defnyddio fel dangosydd dirprwy o les y genedl (Taylor et al., 1997; Bray a Gunnell, 2006).

Gyda hunanladdiad yn cael ei fframio fwyfwy fel mater iechyd cyhoeddus, onid yw'n syndod bod ymchwil meintiol yn cael ei flaenoriaethu, oherwydd bod astudiaethau positiffaeth ar raddfa fawr, ym maes ymchwil iechyd cyhoeddus a meddygaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn sefyll yn gadarn ar frig yr hierarchaeth gwybodaeth (Parkhurst ac Abeysinghe, 2016). Yn ogystal, mae'r oruchafiaeth hon mewn ymchwil meintiol yn adlewyrchu'r symudiad ehangach yn y gymuned ymchwil tuag at ymchwil y mae'n haws ei throsi'n effaith fesuradwy (Smith et al., 1993; Martin, 2011).

Gallai fframio hunanladdiad fel is-adran o iechyd meddwl, yn hytrach na mater eang, traws-sector, hefyd lywio'r ffordd y caiff polisi atal hunanladdiad ei lunio. Yn ôl 'model ffrydiau lluosog' Kingdon, rhaid i broblem ar yr un pryd gael a) sylw, b) llunwyr polisi gyda chymhellid a chyfle ac, yn hollbwysig, c) ateb sydd ar gael iddi wneud newid mewn polisi (Kingdon, 1984). Felly, mae meddwl am hunanladdiad fel problem gymdeithasol anniriaethol sy'n treiddio i bob maes polisi yn llawer llai buddiol i lunio polisi na chanolbwyntio ar y rhai sy'n lladd eu hunain mewn amgylchiadau y gellir dadlau sy'n fwy ataliadwy – mewn lleoliadau penodol ac yng nghyd-destun salwch meddwl.

Yn wir, mewn astudiaeth ddiweddar o'r dehongliad o hunanladdiad drwy bolisiâu atal hunanladdiad presennol y DU, canfu Marzetti et al. (2021) fod y dehongliad cul hwn o hunanladdiad fel mater iechyd cyhoeddus y gellir ei atal wedi'i barhau drwy'r polisiâu. Maent yn dadlau:

'Er bod gan bolisiâu atal hunanladdiad y potensial i feddwl y tu hwnt i ffiniau arfer clinigol, ac ystyried atal hunanladdiad yn fwy cyfannol, mae gan y polisiâu [...] ffocws cymharol gyfyng, sydd yn aml yn lleihau hunanladdiad i un weithred yn y foment ac yn canoli atal marwolaethau ar draul ystyried ffyrdd o wneud bywydau unigol yn fwy dymuno i'w byw'. (Marzetti et al., 2021 t1)

Yr hyn na wnaeth yr ymchwili hon ei ystyried yw sut mae'r dehongliad o hunanladdiad yn effeithio ar ac yn rhyngweithio â'r dystiolaeth a ddefnyddir i lunio a llywio polisi. Yn wir, nid oes unrhyw astudiaeth hyd yn hyn wedi archwilio rôl dystiolaeth o fewn y gwaith o lunio polisiâu atal hunanladdiad, a allai fod â mewnwleidiadau pwysig ar gyfer polisi, ymarfer, a'r byd academiaidd fel ei gilydd. Mae'r astudiaeth hon yn ceisio mynd i'r afael â'r man dall empirig hwn ac archwilio rôl dystiolaeth mewn polisi atal hunanladdiad yng Nghymru.

Cwestiynau ymchwili

Nod y prosiect ymchwili hwn yw **deall rôl dystiolaeth wrth lunio polisi atal hunanladdiad cenedlaethol yng Nghymru**. Mae'r cwestiynau ymchwili penodol i'w hystyried yn y prosiect hwn fel a ganlyn:

1. Beth yw'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y polisi atal hunanladdiad cenedlaethol presennol yng Nghymru?
2. Pa fathau o dystiolaeth sy'n cael eu hystyried yn ddefnyddiol wrth gynhyrchu polisi atal hunanladdiad yng Nghymru - a pham?
3. Beth gellir ei wneud i annog y defnydd o dystiolaeth nas defnyddir yn ddigonol wrth lunio polisiâu atal hunanladdiad?

Methodoleg

Mae hwn yn brosiect ymchwili dulliau cymysg, gan ddefnyddio cyfuniad o ddadansoddiadau dogfennol a chyfweliadau lled-strwythuredig. I fynd i'r afael â chwestiwn ymchwili 1, bu'r polisiâu atal hunanladdiad cenedlaethol presennol yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn destun dadansoddiad dogfennol gan ddefnyddio NVivo. Cafodd yr holl gyfeiriadau ymhlyg a chlir at ddefnyddio dystiolaeth eu nodi, eu codio, a'u dadansoddi i ddeall pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i lunio'r polisiâu.

Er mwyn mynd i'r afael â chwestiynau ymchwil 2 a 3, cynhaliwyd cyfweiliadau lled-strwythuredig â saith cyfrannwr polisi allweddol sy'n ymwneud â llunio polisi atal hunanladdiad yng Nghymru. Mae enwau a rolau penodol y cyfranogwyr wedi'u hepgor er mwyn bod yn ddienw ond roeddent yn cynrychioli ystod eang o sefydliadau gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru, gwasanaethau cyhoeddus, a sefydliadau'r trydydd sector. Drwy gydol yr adroddiad, cyfeirir at y cyfweleion fel cyfranogwyr 1-7, sy'n cyfateb i dabl 1 isod (Tabl 1).

Roedd y cyfweiliadau'n archwilio dealltwriaeth a phrofiad y cyfranogwyr o'r defnydd o dystiolaeth wrth lunio polisi atal hunanladdiad. Cynhaliwyd cyfweiliadau o bell gan ddefnyddio Microsoft Teams neu Zoom, ac roedd pob un yn para tua 60 munud. Yna trawsgrifiwyd data cyfweiliadau a'i ddadansoddi yn ôl themâu gan ddefnyddio NVivo.

Tabl 1. Tabl i ddangos y sefydliadau a gynrychiolir gan gyfranogwyr y cyfweiliadau. Mae gwybodaeth yn fwriadol gyffredinol er mwyn sicrhau anhysbysrwydd cyfranogwyr.

Rhif y Cyfranogwr	Rôl wrth lunio polisiâu atal hunanladdiad
1	Llywodraeth Cymru (Swyddogol)
2	Awdurdod Lleol
3	Y Trydydd Sector
4	Y Trydydd Sector
5	Iechyd Cyhoeddus Cymru
6	Iechyd Cyhoeddus Cymru
7	Senedd (Swyddogol)

Y Sefyllfa o ran Polisi

Mae atal hunanladdiad yn rhan o gylch gwaith polisi iechyd a gofal cymdeithasol, sydd wedi'i ddatganoli. Felly, mae gan bob un o bedair gwlad y DU ei pholisi atal hunanladdiad ei hun. Datblygwyd y pedair strategaeth gan grwpiau cynghori cenedlaethol a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid traws-sector, gan gynnwys llunwyr polisi, awdurdodau lleol, gwasanaethau brys, sefydliadau trydydd sector, ac academyddion. Mae enwau, termau, ac amlinelliad byr o sylfaen dystiolaeth pob un o'r polisiâu hyn wedi'u hamlinellu isod yn nhabl 2.

Cymru

Fel yr amlinellir yn Nhabl 2, y polisi atal hunanladdiad cenedlaethol presennol yng Nghymru yw 'Beth am Siarad â Fi 2: Strategaeth ar gyfer Atal Hunanladdiad a


Hunan-niwed 2015-2020' (Llywodraeth Cymru, 2015). Disodlodd y polisi hwn 'Beth am Siarad â Fi: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Leihau Hunanladdiad a Hunan-niwed yng Nghymru 2008-2013'.

Datblygwyd Beth am Siarad â Fi a Beth am Siarad â Fi 2 gan y Grŵp Cyngori Cenedlaethol (GCC), a gadeiriwyd gan yr Athro Ann John o Brifysgol Abertawe. Mae'r polisi'n disgrifio ei nod fel a ganlyn:

'Gosod y nodau a'r amcanion strategol i atal a lleihau hunanladdiad a hunan-niwed yng Nghymru dros y cyfnod 2015-2020. Mae'n nodi darparwyr gofal â blaenoriaeth i gyflawni camau gweithredu mewn rhai lleoedd blaenoriaeth er budd pobl flaenoriaeth allweddol ac yn cadarnhau'r camau gweithredu cenedlaethol a lleol sydd eu hangen' (Llywodraeth Cymru, 2015 t4).

Adolygwyd Beth am Siarad â Fi 2 yn fwyaf diweddar yn 2018. Yn bennaf, roedd yr adolygiad canol cyfnod hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ymdrechion i roi'r strategaeth ar waith ond roedd hefyd yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am y dystiolaeth epidemiolegol o hunanladdiad yng Nghymru. Roedd disgwyl i Beth am Siarad â Fi 2 gael ei ddiweddarau yn 2020 ond mae hwn bellach wedi'i estyn i 2022. Felly nid oes unrhyw ddiweddariadau na diwygiadau wedi'u gwneud i'r strategaeth ers 2018.

Yn 2018, cyhoeddodd Pwyllgor Iechyd, Chwaraeon a Gofal Cymdeithasol y Senedd adroddiad a oedd yn manylu ar ganfyddiadau ymchwiliad i ymdrechion atal hunanladdiad yng Nghymru, o'r enw 'Busnes Pawb'. Er bod y ddogfen hon y tu allan i ffiniau strategaeth genedlaethol ar gyfer atal hunanladdiad, gwnaeth argymhellion ar gyfer atal hunanladdiadau yng Nghymru ar lefel y boblogaeth. Felly, cynhwyswyd yr adroddiad hwn yn y dadansoddiad polisi, yn bennaf er mwyn darparu cymhariaeth â'r strategaeth genedlaethol.



Ffigur 1. Llinell amser i ddangos strategaethau atal hunanladdiad cenedlaethol Cymru.

Tabl 2. Tabl i amlinellu a chymharu strategaethau atal hunanladdiad cenedlaethol pedair gwlad y DU.

Gwlad:	Cymru	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban
Cyd-destun Polisi Presennol	Beth am Siarad â Fi 2. Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio	Atal Hunanladdiad yn Lloegr: Strategaeth canlyniadau traws-lywodraethol i achub bywydau	Diogelu Bywyd 2: Strategaeth ar gyfer atal hunanladdiad a hunan-niwed yng Ngogledd Iwerddon	Cynllun Gweithredu Atal Hunanladdiad: Mae Pob Bywyd yn Bwysig
Cyfnod:	2015-2022	2012-2022	2019-2024	2018-2021
Datblygwyd gan:	Llywodraeth Cymru a'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol	Yr Adran Iechyd a Grŵp Cynghori'r Strategaeth Genedlaethol ar Atal Hunanladdiad	Corff Gweithredu Strategaeth yr Adran Iechyd a Hunanladdiad	Llywodraeth yr Alban a rhanddeiliaid allweddol – gan ffurfio'r Grŵp Arwain Atal Hunanladdiad Cenedlaethol yn ddiweddarach
Defnydd o dystiolaeth	- Data epidemiolegol wedi'i ddyfynnu'n helaeth drwy gydol yr adolygiad strategaeth a chanol cyfnod - Tystiolaeth ansoddol a ddefnyddiwyd hefyd (e.e. adolygiadau marwolaethau plant) - Dim cyfeiriad at ddata profiad byw - Mae'r rhestr gyfeirio yn bennaf yn cynnwys astudiaethau o'r gwyddorau seiciatrig a chlinigol	- Data epidemiolegol wedi'i ddyfynnu'n helaeth a'i flaenoriaethu trwy gydol y strategaeth a'r holl ddiweddariadau dilynol - Dim data ansoddol wedi'i gyfeirio'n benodol - Mae'r rhestr gyfeirio yn bennaf yn cynnwys astudiaethau o'r gwyddorau seiciatrig a chlinigol	- Dyfynnwyd data epidemiolegol - Tystiolaeth ansoddol a ddefnyddiwyd hefyd (e.e. data galwadau ChildLine, profiad byw) - Cyd-destun diwylliannol wedi'i ddarparu ac ychydig o ddata lleol wedi'i ddyfynnu - Tystiolaeth economaidd ar gyfer baich ariannol hunanladdiad wedi'i chynnwys mewn adroddiad atodiad ar wahân	- Dim adran benodol wedi'i neilltuo i'r sylfaen dystiolaeth, ond trafodir amrywiaeth o fathau o dystiolaeth drwy gydol y strategaeth - Defnyddir dyfyniadau profiad bywyd yn amlwg trwy gydol y strategaeth - Defnyddir iaith gyfannol, gynhwysfawr drwy gydol y strategaeth

Diweddariadau polisi:	Cyhoeddwyd yr adolygiad canol cyfnod yn 2018.	Cyhoeddwyd pum diweddariad rhwng 2012 a 2021.	Cyhoeddwyd yr adolygiad canol cyfnod yn 2022.	Cyhoeddwyd adolygiad dwy flynedd yn 2021

Canfyddiadau

C1. Beth yw'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y polisi atal hunanladdiad cenedlaethol presennol yng Nghymru?

Mae'n amlwg o'r strategaethau atal hunanladdiad cenedlaethol a ddadansoddwyd bod pedair gwlad y DU yn dangos ymrwymiad i lunio polisiâu ar sail tystiolaeth. Er enghraifft, yng Nghymru, mae Beth am Siarad â Fi a Beth am Siarad â Fi 2 yn cyfeirio'n aml at bwysigrwydd defnyddio tystiolaeth i ddeall mater hunanladdiad ac i ganfod beth sy'n gweithio i atal hunanladdiadau.

Epidemioleg

Mae'r defnydd o dystiolaeth o fewn polisiâu atal hunanladdiad Cymru, sef Beth am Siarad â Fi (2008) a Beth am Siarad â Fi 2 (2015), yn adlewyrchu maes ehangach hunanladdiad, yn yr ystyr bod gwybodaeth feintiol, glinigol yn cael ei ffafrio dros dystiolaeth ansoddol. Yn benodol, y math amlycaf o dystiolaeth a ddefnyddir ym mhob rhan o bolisiâu atal hunanladdiad Cymru yw data epidemiolegol ar gyfraddau hunanladdiad a derbyniadau i'r ysbyty oherwydd hunan-niwed, ac yn aml caiff ei rannu'n gategorïau gwahanol, megis rhyw, oedran, cefndir economaidd-gymdeithasol, lleoliad, neu fath o ddull a ddefnyddir.

Casglwyd y dystiolaeth hon yn bennaf gan yr ONS, Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, a'r Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol i Hunanladdiad a Hunan-niwed. Defnyddiwyd y setiau data hyn yn gyffredin hefyd yn strategaethau atal hunanladdiad ehangach gwledydd y DU. Yn ogystal, yng Nghymru (SIDCymru), yr Alban a Gogledd Iwerddon mae cronfeydd data pwrpasol ar gyfer data atal hunanladdiad

Defnyddir tystiolaeth feintiol, ac yn enwedig amllder achosion o ymddygiad hunanladdol, i gyfleu maint a brys y broblem o hunanladdiad, a'i chadarnhau fel blaenoriaeth genedlaethol. Trwy gydol Beth am Siarad â Fi, Beth am Siarad â Fi 2 a Busnes Pawb, gwnaed hyn dro ar ôl tro trwy gymharu ystadegau hunanladdiad a chyffredinolrwydd â rhai materion cymdeithasol ac iechyd cyhoeddus eraill yr ystyrir yn eang eu bod yn broblemau cyffredin neu bwysig, megis damweiniau traffig ar y ffyrdd, canser, a chlefyd y galon:

'Hunanladdiad yw un o'r achosion mwyaf o farwolaethau ymhlith pobl ifanc yng Nghymru. Mae dwywaith cynifer o farwolaethau ymhlith

pobl o bob oed bob blwyddyn o ganlyniad i hunanladdiad nag o ganlyniad i ddamweiniau traffig ffyrdd' (Llywodraeth Cymru, 2008 t.6)

'Gwyddom fod meddyliau ac ymddygiad hunanladdol mor gyffredin fel y dylid rhoi'r un ffocws ar hyfforddiant ar gyfer staff gwasanaethau cyhoeddus â mathau eraill o hyfforddiant. Er enghraifft, clywsom fod meddygon teulu yn llawer mwy tebygol o ddod i gysylltiad â phobl sy'n cael meddyliau hunanladdol nag i bobl sydd angen CPR'
(Senedd, 2018 t21)

Tystiolaeth Ansoddol

Er gwaethaf pa mor flaenllaw yw tystiolaeth feintiol ac epidemiolegol, roedd tystiolaeth ansoddol yn cael ei defnyddio ym mholisiâu Beth am Siarad â Fi yng Nghymru, ac enghraifft arbennig o nodedig o hyn yw canfyddiadau'r rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant. Cynhaliodd y rhaglen hon adolygiad thematig o bob adolygiad o farwolaethau trwy hunanladdiad ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru a roddodd fewnwelediadau defnyddiol - yn enwedig ar gyfer ymarfer.

Hepgoriad nodedig o'r polisiâu Beth am Siarad â Fi oedd unrhyw dystiolaeth profiad bywyd, naill ai gan unigolion a oedd wedi cael profedigaeth oherwydd hunanladdiad, neu'r rhai sydd wedi goroesi ymdrechion hunan-niweidio neu hunanladdiad. Mewn polisiâu atal hunanladdiad gwledydd eraill y DU, defnyddiwyd tystiolaeth profiad bywyd i gyfleu trasiedi hunanladdiad, i archwilio cymhlethdod hunanladdiad yn fanylach.

Yn benodol, bu Llywodraeth yr Alban yn hyrwyddo'r defnydd o dystiolaeth profiad bywyd yn ei phroses polisi atal hunanladdiad, trwy sefydlu panel profiad bywyd. Mae'r panel wedi'i ffurfio o unigolion a oedd naill ai wedi mynd trwy brofedigaeth oherwydd hunanladdiad neu wedi cael profiad personol o feddyliau hunanladdol, ac mae'r panel yn gweithredu fel grŵp llywio polisi ar y cyd â'r paneli cynghori a gweithredu academaidd. Darperir eu defnydd o dystiolaeth profiad bywyd yn benodol fel enghraifft o fewn canllawiau gweithredu'r WHO ar gyfer polisiâu atal hunanladdiad (WHO, 2021 t87).

Yn wahanol i Beth am Siarad â Fi a Beth am Siarad â Fi 2, roedd adroddiad 'Busnes Pawb' y Senedd yn cynnwys mewnwelediadau defnyddiol gan unigolion mewn profedigaeth a gwnaeth argymhelliad penodol yn eu hadroddiad i'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol benodi aelod o brofiad bywyd:

'Dylai pob gweithgaredd atal hunanladdiad gael ei gyd-gynhyrchu â'r rhai sydd â phrofiad personol o hunanladdiad. Mae hyn yn cynnwys clinigwyr, er enghraifft, sydd â phrofiad proffesiynol

perthnasol yn ogystal â phobl sydd wedi mynd trwy brofedigaeth bersonol oherwydd hunanladdiad. Yn bwysig, dylai hyn hefyd gynnwys y rhai sydd wedi profi syniadau am hunanladdiad eu hunain, gan gynnwys goroeswyr ymdrechion hunanladdiad [...] Mae'n hanfodol bod eu lleisiau'n cael eu clywed ar y lefel uchaf. Dylai'r Grŵp Cyngori Cenedlaethol a fforymau rhanbarthol ymgysylltu â'r grwpiau hyn i sicrhau bod yr holl weithgarwch atal hunanladdiad yn cael ei lywio gan brofiadau bywyd.' (Senedd, 2018 t52)

Yn ogystal, rhoddodd ymarferwyr a darparwyr gwasanaethau eraill sydd ar y rheng flaen o ran atal hunanladdiad dystiolaeth i ymchwiliad y Senedd i roi mewnwelediad penodol i arfer da a drwg, a materion o fewn eu sefydliadau – gan egluro sut y gall y materion hyn gyfrannu at farwolaethau hunanladdiad.

'Tad i fachgen 17 oed a aeth i wneud synnwyr o farwolaeth ddiweddar iawn ei fab, a oedd yn ymddangos fel hunanladdiad, ac o fewn ychydig ddyddiau dywedodd y meddyg teulu wrtho, 'Nawr, gallaf ddweud hyn wrthyfch mai dyma'i drydedd ymgais.' Ac yntau'n methu credu hyn, dywedodd y tad, 'Pam na allech chi ddweud wrthyf o'r blaen?', ac atebodd y meddyg teulu'n syml, acyn yn eithaf ymddiheurol, 'Cyfrinachedd.'" (Senedd, 2018 t.34)

Hierarchaeth tystiolaeth

Trwy gydol y polisiau Beth am Siarad â Fi, ceir cyfeiriadau amlwg ac ymhlyg at hierarchaeth tystiolaeth, lle mae tystiolaeth feintiol yn cael ei ffafrio dros dystiolaeth ansoddol. Er enghraifft, yn Beth am Siarad â Fi 2:

'Dylai lefel y dystiolaeth sy'n sail i effeithiolrwydd ymyriad fod yn dryloyw. Er enghraifft, mae arolygon o wybodaeth ac agweddau ymatebwyr ar ôl hyfforddiant yn darparu tystiolaeth lefel is na threialon rheoledig ar hap ar gyfer ymyriadau i leihau ymddygiadau hunan-niweidio.' (Llywodraeth Cymru, 2015 t14)

Mae'r hierarchaeth hon hefyd yn cael ei hadlewyrchu yn y semanteg a geir yn yr adroddiad ynghylch tystiolaeth, sy'n awgrymu bod 'tystiolaeth' yn cael ei deall i fod yn gyfystyr â 'data', a bod 'data' yn gyfystyr â gwirionedd gwrthrychol, neu ffaith. Er enghraifft, yn Beth am Siarad â Fi (2008), teitl yr adran sy'n manylu ar y data epidemiolegol ynghylch cyfraddau hunanladdiad yw 'Hunanladdiad a Hunan-niwed yng Nghymru – Y Ffeithiau' (Llywodraeth Cymru, 2008 t6). Mae hyn yn gwrthgyferbynnu'n uniongyrchol â'r alwad am ymgynghoriad cyhoeddus ar ddiwedd y

strategaeth Beth am Siarad â Fi, lle cyfeirir at ymgynghoriad cyhoeddus fel 'sylwadau', 'meddyliau', a 'barn' yn hytrach na 'data' neu 'dystiolaeth'.

Mae'n ddiddorol nodi bod y syniad bod ystadegau am gyfraddau hunanladdiad a hunan-niwed yn ffeithiau anodd yn parhau i gael ei gynnal, hyd yn oed ar ôl y soniwyd yn glir yn nogfennau'r polisi am ffaeledigrwydd y data hwn. Mae Beth am Siarad â Fi yn cydnabod bod ffigurau hunan-niweidio, yn ôl pob tebyg, yn amcangyfrif rhy isel o'r broblem oherwydd nad yw llawer o bobl sy'n hunan-niweidio yn ceisio cymorth neu'n cael eu trin mewn cleifion allanol. Er gwaethaf y cyfaddefiad hwn o anghywirdeb, rhoddwyd y gyfradd hunan-niweidio fel rhan o'r adran 'Hunanladdiad a Hunan-niwed yng Nghymru – Y Ffeithiau' (Llywodraeth Cymru, 2015 t7).

Nid oedd unrhyw gyfeiriad penodol nac ymhlyg at hierarchaeth dystiolaeth yn adroddiad 'Busnes Pawb' y Senedd. Cyfeiriwyd yn gyson trwy gydol yr adroddiad at ddata meintiol a mewnwelediadau ysgrifenedig a llafar a gyflwynwyd gan sefydliadau ac unigolion fel 'tystiolaeth'.

Mae'r hierarchaeth hon o dystiolaeth, a'r defnydd o ddata cyfraddau hunanladdiad epidemiolegol i fonitro cynnydd, hyd yn oed yn fwy amlwg yn y strategaeth atal hunanladdiad genedlaethol ar gyfer Lloegr. Yn wir, roedd strategaeth Lloegr yn cyfeirio'n benodol at ymyriadau wedi'u teilwra ar gyfer rhai grwpiau arbennig o agored i niwed wedi'u hepgor o'r polisi, gan ei bod yn anodd mesur eu heffaith yn ystadegol:

'Ystadegau hunanladdiad dibynadwy, amserol a chywir yw sylfaen unrhyw strategaeth atal hunanladdiad ac maent o bwysigrwydd iechyd cyhoeddus aruthrol.' (Llywodraeth EM, 2012 t12)

'Mae yna grwpiau eraill y gallai eu risg fod yn uchel, megis lleiafrifoedd ethnig, ond mae cyfyngiadau ar y data sydd ar gael yn golygu ei bod yn anodd amcangyfrif eu risg neu nid oes unrhyw ffordd o fonitro cynnydd o ganlyniad i fesurau atal hunanladdiad.'
(Llywodraeth EM, 2012 t13)

Casglu Tystiolaeth

Yng Nghymru, roedd yn ymddangos bod dystiolaeth ymchwil wedi'i chasglu a'i brocera gan gadeirydd y Grŵp Cynghori Cenedlaethol, yr Athro Ann John, sy'n cynrychioli cysylltiad rhwng llunio polisiâu a lleoliadau data allweddol am atal hunanladdiad, trwy ei gwaith gyda sefydliadau amrywiol megis Prifysgol Abertawe ac Iechyd y Cyhoedd, Cymru. Mae Mignone et al (2020) yn nodi bod y dull hwn o roi uwch-arbenigwr i weithio ar wraidd problem polisi yn gyffredin mewn polisi iechyd ac

iechyd y cyhoedd – sef, fel y gwelsom, lle mae llywodraethau'n dosbarthu atal hunanladdiad yn bennaf.

Mae'r llais disgyblu a gynrychiolir ym mholisiâu Beth am Siarad â Fi Cymru yn hynod glinigol, sydd, unwaith eto, yn arwydd o'r drafodaeth bresennol sy'n fframio atal hunanladdiad fel mater iechyd meddwl. Gellir gweld hyn yn ei restr o gyfeiriadau, sy'n dod yn bennaf o gyfnodolion seiciatrig, seicolegol a meddygol. Yn wir, soniwyd yn gyson am iechyd meddwl trwy'r ddau bolisi. Mae Beth am Siarad â Fi 2 yn trafod sut y gellir lleihau'r stigma ynghylch hunanladdiad trwy llythrennedd iechyd meddwl a chael gwared ar y stigma sy'n gysylltiedig â salwch meddwl.

Gallai'r ffocws hwn ar hunanladdiad yng nghyd-destun iechyd meddwl fod o ganlyniad i'r adolygiad o Beth am Siarad â Fi yn argymhell bod nodau'r polisi yn rhy eang ac y dylid cael gwared arnynt.

'Canfu'r adolygiad [o Beth am Siarad â Fi], er bod cynnydd da wedi'i wneud o ran rhai o'r ymrwymadau, teimlwyd bod cynnwys nifer mawr o gamau ategol yn y cynllun wedi lleihau'r ffocws ar gyflawni camau gweithredu penodol i atal hunanladdiad a hunan-niwed.'

(Llywodraeth Cymru, 2015, atodiad 1)

RQ2. Pa fathau o dystiolaeth sy'n cael eu hystyried yn ddefnyddiol wrth lunio polisi atal hunanladdiad yng Nghymru - a pham?

Yn yr adran hon, cyflwynir a thrafodir canfyddiadau o'r cyfweiliadau ag actorion polisi allweddol o bob rhan o'r maes llunio polisiâu atal hunanladdiad.

Fel y soniwyd uchod, mae strategaeth Beth am Siarad â Fi 2 i Gymru yn adlewyrchu'r hierarchaeth dystiolaeth gynhenid sy'n bodoli yn y llenyddiaeth ehangach lle mae data meintiol ac epidemiolegol yn cael ei ffafrio dros dystiolaeth ansoddol, megis data profiad bywyd.

Mewn cyferbyniad â hyn, nododd cyfweleion yn gyson fod yn rhaid ystyried pob math o dystiolaeth sydd ar gael wrth lunio polisi atal hunanladdiad - gan gynnwys ymchwil academiaidd, cyngor arbenigol, tystiolaeth weithredol, a phrofiad bywyd - a bod pob un yr un mor bwysig wrth lunio polisi. Er enghraifft:

'Fel person polisi, rwy'n meddwl fy mod yn ceisio rhoi pwysau cyfartal i bob darn o'r dystiolaeth beth bynnag.. Ac rwy'n defnyddio'r term tystiolaeth i olygu ein hymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaethau, ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid, gan edrych ar wybodaeth weithredol ac yna edrych ar yr ymchwil gyhoeddedig.'
(Cyfranogwr 1)

Bu dau o'r cyfweleion hyd yn oed yn myfyrio'n benodol ar hierarchaeth y dystiolaeth, a sut maent yn ystyried nad yw o reidrwydd yn berthnasol i faes llunio polisi'au atal hunanladdiad:

